



Uned Wenyn Genedlaethol

Adolygiad Blynyddol Cymru 2021

Tymor 2021

Croesawyd nifer sylweddol o wenynwyr newydd eto eleni, sy'n dangos bod cryn ddi-ddordeb mewn cadw gwenyn yng Nghymru o hyd. Ochr yn ochr â hyn, gwelwyd cynnydd unwaith eto mewn ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio yn gyffredinol a'r angen i wella eu cynefin a'n hamgylchedd. Ein goruchwylwyr yng Nghangen Polisi Natur a Defnydd Tir Llywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael â'r dasg barhaus hon, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio, y mae UWG Cymru yn falch o fod yn rhan ohono ([Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio \(biodiversitywales.org.uk\)](http://Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio (biodiversitywales.org.uk))).

Er gwaethaf pandemig y coronafeirws, llwyddwyd i fynd allan i'r maes a pharhau â'n rhaglen archwilio mewn ffordd fwy rheolaidd eleni. Gwelsom fod gwenynwyr, yn enwedig ein dechreuwyr, yn awyddus i gael eu harchwilio a chael cyngor gennym. Mae hyn, yn ddiau, yn adlewyrchu'r diffyg cyswllt y maent wedi'i gael dros y flwyddyn ddiwethaf am fod Cymdeithasau Cadw Gwenyn wedi gorfod cyfyngu ar nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Ar ôl gaeaf cymharol fwyn a gwanwyn cynnar, roedd mis Ebrill yn heulog ond yn gymharol oer ac roedd y rhan fwyaf o fis Mai yn wlyb. Oherwydd hyn, cafodd nythfeydd eu dal yn ôl ac roedd rhywfaint o borthiant y gwanwyn yn hwyrach na'r arfer. Mewn rhannau helaeth o Gymru, dim ond cynhaeaf gwanwyn cyfyngedig iawn a geir, ac eleni nid oedd gan y gwenyn unrhyw beth ar ôl i'w roi i'r gwenynwr. Roedd angen porthiant atodol ar rai ohonynt hyd yn oed. Cafwyd tywydd da ar y cyfan ar ddiwedd mis Mai a mis Mehefin, a olygodd fod y nythfeydd yn gallu magu cryfder ac, yn sgil hynny, gwelwyd yr awydd anorfod i heidio.

Yna, cafwyd bron i dair wythnos o dywydd poeth iawn ym mis Gorffennaf, a wnaeth gyddaro'n berffaith â'n llif neithdar cryfaf arferol o fieri, meillion a blodau gwyllt eraill, a gafodd eu cadw'n ôl gan y gwanwyn hwyr. Roedd yn golygu bod y nythfeydd hynny a oedd mewn cyflwr da i fanteisio yn gallu cronni gwargedau rhyfeddol o fêl yn gyflym iawn os oeddent yn cael y lle i wneud hynny. Mae cryn amser wedi mynd heibio ers i ni gael llif mêl mor rhyfeddol. Yn anffodus, roedd llawer o wenynwyr wythnos neu ddwy ar ei hôl hi a datgelodd ein harchwiliadau rheolaidd fod storfeydd nythfeydd yn orlawn, heb unrhyw le i gronni mwy.

Roedd y tywydd ym mis Awst yn gynnes o hyd ac yn gymharol sych, ond roedd y prif lif o neithdar wedi dod i ben, er gwaethaf dangosiad da o bengaled a helyglys. Roedd mis Medi a mis Hydref yn fwyn a pharhaodd gweithgarwch nythfeydd drwy gydol y mis, gan wneud defnydd o ffromlys a blodau hwyr eraill, gan gynnwys iorwg yn benodol. Os nad oeddent

yn llenwi lloffttydd mêl, o leiaf nid oedd rhaid i wenynwyr ddarparu bwyd yn y rhan fwyaf o achosion am fod y nyth epil yn llawn neithdar. Felly, ar y cyfan, bu'n gynhaeaf mêl da i rai, gydag amrywiad amlwg yng nghynhyrchiant nythfeydd, yn dibynnu ar b'un a oeddent mewn cyflwr da i allu manteisio ar y cyfnod byr o doreth.



Paill y gwanwyn



Gwenynen ormes â llygaid gwyrdd

Y cnwd mêl: *Y cnwd mêl fesul cwch yn 2021, fel y cofnodwyd gan yr Arolygwyr Gwenyn Tymhorol yng Nghymru ar gyfer eu hardaloedd eu hunain, yw 42 pwys ar gyfartaledd. Mae hynny'n gynnydd mawr o gymharu â ffigur y llynedd, sef 19 pwys, ond ni chyflawnwyd hyn ym mhob ardal, gan gynnwys yn Lloegr!*

Yr UWG, BeeBase a'r tîm yng Nghymru

Roeddem yn drist i golli Tony Davis ym mis Medi. Penderfynodd ymddeol ar ôl pum mlynedd gyda ni, a dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddo. Tuag at ddiwedd y tymor, ymunodd hen ffrind, Edmund Thomas, â'r tîm, gan ailafael yn y gwaith o ofalu am ei ardal flaenorol, sef Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr.

O 1 Ebrill 2022 ymlaen, gallwch ddefnyddio'r cyfleuster chwilio cod post ar dudalen manylion cyswllt BeeBase i weld pwy yw eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol lleol. Gallwch gysylltu â'ch Arolygydd drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod o ddechrau mis Ebrill tan ddiwedd mis Medi. Yn ystod tymor y gaeaf, sef rhwng mis Hydref a mis Mawrth, dylech gyfeirio pob ymholiad at yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol ([BeeBase – Adnodd gwybodaeth am gadw gwenyn i wenynwyr \(nationalbeeunit.com\)](#)).

Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol	Ardal	Manylion cyswllt
Frank Gellatly	Canol Sir Gaerfyrddin 01267 202732	07775 119480
Arolygwyr Gwenyn Tymhorol	Ardal	Manylion cyswllt
Jonathan Garratt	Ynys Môn, Gogledd Gwynedd a Chonwy	07775 119479
Gwag	Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam	
Paul Aslin	De Gwynedd, Gogledd Powys,	07867 351605
Karen Smith	Ceredigion	07979 119374
Shane Jones	Powys	07827 552312
Chris Welton	Gogledd Sir Benfro, De-orllewin Ceredigion	07900 166143
Maggie Gill	De Sir Benfro, De Sir Gaerfyrddin	07979 119373
Paul Davies	Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful	07557 566228
Edmund Thomas	Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr	07385 930914
Daniel Baxter	Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent	07771 038646

Nifer y gwenynwyr a chychod

Ar hyn o bryd mae 3,713 o wenynwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru ar BeeBase, sef cronfa ddata ar-lein yr UWG. Rhyngddynt, mae ganddynt 22,780 o nythfeydd mewn 5,264 o wenynfeydd – sef cyfartaledd o 6 nythfa fesul gwenynwr a 4.3 nythfa fesul gwenynfa. Mae'r ffigurau hyn yn gynydd bach o gymharu â ffigurau'r llynedd.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y gwenynwyr newydd sy'n cofrestru ar BeeBase yng Nghymru wedi amrywio – yn 2017 cofrestrwyd 205 o wenynwyr newydd, gyda'r nifer hwn yn cynyddu i 216 yn 2018 a 317 yn 2019, cyn gostwng i 253 yn 2020 a chynyddu i 272 yn 2021.

Rydym wedi parhau i ddiweddarau BeeBase yn ystod y tymor, gan gadarnhau sefyllfa'r gwenynwyr hynny nad ydynt wedi cael ymweliad ers cryn amser a chael gwared ar enwau'r rhai nad ydynt yn cadw gwenyn mwyach. Cymerwch ran yn y Cyfrif Cychod Gwenyn Cenedlaethol ar gyfer 2021, a lansiwyd ar 2 Tachwedd, lle gallwch ddiweddarau eich cofnodion BeeBase gyda chyfanswm y cychod gwenyn sy'n gaeafu, er mwyn ein helpu i sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir.

Cofrestru ar BeeBase a Rhestrau Aelodaeth Cymdeithasau

Hoffwn atgoffa pawb pa mor hanfodol yw bod pob gwenynfa'n cael ei chofrestru ar BeeBase fel y gallwn nodi unrhyw wenynfa a gaiff ei pheryglu gan glefyd hysbysadwy neu blâu egsoftig yn y DU a thargeddu mesurau rheoli'n effeithiol. Gallwch gofrestru'ch hun am ddim drwy'r ddolen yn [BeeBase – Adnodd gwybodaeth am gadw gwenyn i Wenynwyr \(nationalbeeunit.com\)](https://www.nationalbeeunit.com), neu gallwch gofrestru drwy gysylltu â swyddfa'r UWG ar 0300 303 0094 neu drwy eich Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol. Bydd pob gwenynwr sydd wedi'i gofrestru ar BeeBase â chyfeiriad e-bost cyfredol yn cael e-bost awtomatig i'w rybuddio os deuir o hyd i glefyd o fewn 3km i'r wenynfa a gofrestrwyd. Os ydych wedi cofrestru eich hun, sicrhewch fod y cofnodion am eich gwenynfeydd yn gyfredol neu cysylltwch ag un ohonom os nad ydych yn siŵr. Rydym yn argymhell eich bod yn cofrestru'ch hun oherwydd drwy wneud hyn mae gwenynwyr hefyd yn cael mynediad wedi'i ddiogelu â chyfrinair i'w manylion personol a chofnodion archwilio.

Gall eich cymdeithas anfon rhestr o'i haelodau atom os dymuna, ond dim ond os yw'n bodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y gall wneud hyn (mae gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi canllawiau ar arferion gorau). Mae'r rhestrau hyn yn ddefnyddiol iawn i ni gan eu bod yn ein galluogi i nodi gwenynwyr newydd a diweddarau manylion cyswllt ar gyfer gwenynwyr presennol. Rydym yn defnyddio ein cronfa ddata bob dydd i flaenoriaethu ein harchwiliadau clefydau hysbysadwy. Bydd rhestr gyfredol yn bwysig iawn os byddwn yn ddigon anffodus i ganfod Chwilod Bach y Cwch Gwenyn yng Nghymru.

Archwiliadau


Eleni, ymwelodd yr Arolygwyr Gwenyn Tymhorol â chyfanswm o 663 o wenynwyr mewn 933 o wenynfeydd gan archwilio 5241 o nythfeydd yng Nghymru. Mae hyn yn ostyngiad bach iawn mewn niferoedd o gymharu â 2020. Roedd un arolygydd yn brin gennym am y rhan helaeth o'r tymor nes i Edmund Thomas ymuno â ni ym mis Medi.

Dylid nodi ei bod yn ofyniad cyfreithiol i hysbysu'r UWG os gwyddoch fod clefyd neu bla hysbysadwy statudol yn bresennol yn ein gwenynfa, neu os byddwch yn amau hynny. Gall gwenynwyr gysylltu â'u Harolygydd Gwenyn Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn, neu eu Harolygydd Gwenyn Tymhorol yn ystod yr haf, os bydd ganddynt bryderon ynghylch clefyd neu bla sy'n effeithio ar wenyn. Gallwch dynnu llun os byddwch yn gweld unrhyw beth amheus yn yr epil. O ran pryfed, ceisiwch gymryd sampl. Gallwch anfon y llun drwy e-bost neu neges destun i'ch Arolygydd Gwenyn Tymhorol neu eich Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol, neu gallwch gysylltu â ni dros y ffôn i ddisgrifio'r broblem. Os na allwn gadarnhau nad oes clefyd na phla statudol yn bresennol, byddwch yn trefnu i ymweld â chi yn rhad ac am ddim.


Clefydau a Phlâu

Clefydau hysbysadwy: Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn a Chlefyd Americanaidd y Gwenyn

Mae manylion clefydau y daethpwyd o hyd iddynt eleni ar gael ar dudalennau BeeBase sy'n nodi achosion o glefydau yn [BeeBase – Adnodd gwybodaeth am gadw gwenyn i Wenynwyr \(nationalbeeunit.com\)](#), ynghyd â'r sgwariau grid perthnasol. Rhoddir crynodeb ohonynt yn y graffiau isod. Y tymor hwn, daethpwyd o hyd i glefyd y gwenyn mewn 27 o wenynfeydd a oedd yn effeithio ar 44 o nythfeydd, sy'n gynnydd o gymharu â ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf.



Nifer yr achosion o Glefyd Americanaidd y Gwenyn yng Nghymru 2017 – 2021 (fesul sir a gadwyd)



Nifer yr achosion o Glefyd Ewropeaidd y Gwenyn yng Nghymru 2017 – 2021 (fesul sir a gadwyd)

Gwelwyd lefelau uwch na'r arfer o glefyd Americanaidd y gwenyn yn ne-orllewin Cymru, gydag achosion yn ailymddangos yn Nyfed, yn Sir Benfro ac yn ardal Llanelli yn benodol, achosion newydd ger Cydweli a nifer bach o achosion yng Ngwent. Yn ne Cymru y daethpwyd o hyd i'r nifer mwyaf o achosion positif o glefyd Ewropeaidd y gwenyn, gan gynnwys yn Abertawe, Gŵyr, Pen-y-bont ar Ogwr a Gwent. Mae'r olaf wedi'i gysylltu ag achosion o werthu nythfeydd cnewyllol, felly byddem yn annog unrhyw un sy'n prynu gwenyn i ofyn am gyngor gan Gymdeithas Gwenynwyr neu arolygydd lleol ynghylch tarddiad y gwenyn. Rydym bob amser yn awyddus i archwilio gwenyn y deuir â nhw i mewn i'r ardal.

Ar Benrhyn Gŵyr, caniatodd gwenynwr caredig i Gwenyn Gruffydd ffilmio ei nythfeydd yn cael triniaeth ysgwyd haid gwenynfa gyfan yr Yswiriant Afiechyd Gwenyn newydd ar gyfer ei sianel YouTube. Y nod yw addysgu gwenynwyr eraill am glefyd Ewropeaidd y gwenyn ([Canfod a Thrin Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn mewn Gwenyn Mêl gyda'r Arolygwyr Gwenyn – YouTube](#)). Yn gynharach eleni, aethom ati i ffilmio rhai crwybrau ffres â chlefyd Americanaidd y gwenyn gyda Gwenyn Gruffydd ([Nodi Clefyd Americanaidd y Gwenyn mewn Gwenyn Mêl gyda'r Arolygwyr Gwenyn. Clefyd Americanaidd y Gwenyn mewn Gwenyn. – YouTube](#)) a'r broses archwilio yn y maes gyda Lawrence Edwards o Black Mountain Honey [Arolygydd Gwenyn – Uned Wenyn Genedlaethol – Ymweliad gan yr Arolygwyr Gwenyn – YouTube](#), unwaith eto ar gyfer eu sianeli YouTube.

O blith yr anhwylderau cyffredin sy'n effeithio ar epil, erys *chalkbrood* yn broblem fach i'r rhan fwyaf o wenywyr o hyd. *Sacbrood* yw'r ail glefyd mwyaf cyffredin. Gwelwyd nifer cynyddol o achosion ohono dros y pum mlynedd diwethaf ac mae achosion unigol o Feirws Parlys Cronig y Gwenyn i'w gweld o hyd hefyd.

Varroa

Mae Varroa yn parhau i fod yn her. Mae'n gyfrifol am lawer o achosion o golli nythfeydd bob blwyddyn ond mae'r achosion ohono yn amrywio ledled y wlad ac yn dibynnu i raddau helaeth ar y ffordd y caiff ei reoli. Allan yn y maes, mae arolygwyr wedi gweld nad oes gan ddechreuwyr lawer o wybodaeth gyffredinol ynghylch sut i reoli varroa ar y cyfan. Mae'n debygol nad yw diffyg hyfforddiant gan Gymdeithasau Gwenynwyr oherwydd y pandemig wedi helpu'r sefyllfa hon. Teimlwyd bod llawer ohonynt yn gwybod am driniaethau, ond nad oedd ganddynt wybodaeth fanwl amdanynt. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn gobeithio ei drafod yn ein digwyddiadau iechyd gwenyn y flwyddyn nesaf. Caiff gwenynwyr eu cynghori'n gryf i fonitro lefelau gwiddon yn rheolaidd wrth fynd ati i reoli eu nythfeydd, a gweithredu os byddant yn cyrraedd lefelau niweidiol. Gellir eu rheoli drwy ddefnyddio dulliau biotechnegol a/neu gynhyrchion awdurdodedig yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Mae gwneuthurwyr y triniaethau awdurdodedig yn treulio cryn dipyn o amser yn fformiwleiddio sut y dylent gael eu defnyddio er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl. Wrth ddefnyddio triniaethau, sicrhewch eich bod yn glynu'n gaeth wrth gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr er mwyn cael y budd gorau o'r cynnyrch. Mae hefyd yn werth nodi bod tymheredd yn effeithio ar rai triniaethau, fel y rhai sy'n seiliedig ar asid

thymol neu fformig. Mae angen i stribedi fel y rhai sy'n cynnwys Amitraz gael eu gosod yn gywir yn y siambr epil yn unol â'r cyfarwyddiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae cynnyrch newydd sydd wedi'i awdurdodi ar gyfer varroa – Stribedi Cwch Gwenyn Formicpro 68.2g ar gyfer Gwenyn Mêl – sydd wedi'i restru ar wefan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol [Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gynnyrch – Cynhyrchion sydd wedi'u Hawdurdodi ar Hyn o Bryd \(defra.gov.uk\)](#)

Bydd y rhan fwyaf o wenynwyr yn cwblhau dwy driniaeth ar adegau penodol o'r flwyddyn. Y driniaeth gyntaf ar ôl cymryd y mêl i ffwrdd ac edrych am storfeydd. Yn aml, triniaeth yn seiliedig ar thymol sy'n dechrau ym mis Awst ac sy'n helpu i gadw gwenyn yn iach dros y gaeaf fydd hon. Yn ail, triniaeth y gaeaf sy'n defnyddio cynnyrch sy'n seiliedig ar asid ocsalig ym mis Rhagfyr, pan nad oes fawr ddim epil, os o gwbl, er mwyn cadw nifer y gwiddon yn isel pan fydd yr epil newydd yn cael ei magu yn y gwanwyn. Nid yw'r naill gynhwysyn actif na'r llall yn datblygu ymwrthedd mewn gwiddon o'u defnyddio'n rheolaidd, yn wahanol i rai cemegau caletach.

Y rheol yn fras yw y dylai anelu at sicrhau niferoedd bach o widdon mewn nythfeydd ar ddechrau'r gaeaf a hefyd ar ddechrau'r gwanwyn. Yn aml, bydd triniaethau a roddir yn rhy hwyr yn y tymor, er enghraifft ar ddiwedd mis Medi, yn llai effeithiol ac yn golygu y caiff y gwenyn eu gwanhau yn ystod y gaeaf gan y gwiddon varroa sy'n bwydo arnynt. Fel arolygwyr, rydym yn aml yn gweld marwolaeth nythfa yn ystod y gaeaf neu ar ddechrau'r gwanwyn oherwydd nad yw varroa wedi cael ei reoli'n effeithiol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod achosion o ddefnyddio unrhyw feddyginiaethau yn cael eu cofnodi, a rhaid cadw'r cofnodion hyn am bum mlynedd o leiaf. Gellir dod o hyd i'r manylion llawn, ynghyd â ffeithlenni am ddim, gan gynnwys y llyfryn 'Managing Varroa', ar BeeBase. [BeeBase – Adnodd gwybodaeth am gadw gwenyn i Wenynwyr \(nationalbeeunit.com\)](#)

Gwaith gwylio rhag Plâu Egsotig

Cynhaliwyd 88 o archwiliadau a oedd yn ymwneud yn benodol â phlâu egsotig eleni, er mwyn targedu cyfuniad o bwyntiau risg a nodwyd a safleoedd a ddewiswyd ar hap. Mae archwiliadau cadw golwg ar blâu egsotig yn edrych i weld a oes unrhyw Chwilod Bach y Cwch Gwenyn, gwyddon Tropilaelaps a Chacwn Asia yn bresennol yn ogystal â bod yn archwiliad arferol o epil er mwyn chwilio am glefyd y gwenyn. Y pwyntiau risg a nodwyd yw porthladdoedd, meysydd awyr, mewnforyr cynhyrchion cychod crai, marchnadoedd cyfanwerthu ffrwythau a llysiau, mewnforyr breninesau mwy o faint a safleoedd tirlenwi sy'n gysylltiedig â chynhyrchion wedi'u mewnfario. Gan fod Chwilod Bach y Cwch Gwenyn yn dal i fod yn bresennol yn yr Eidal eleni a bod Cacwn Asia yn parhau i ymledu yn Ffrainc a gwledydd amgylchynol, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwaith i gadw golwg ar blâu egsotig. Rydym ni yng Nghymru ar ymyl ogleddol yr ardal lle gwelir Cacwn Asia yn Ewrop, a thrwy gydweithio rydym yn gobeithio cadw'r rhywogaeth oresgynnol hon draw a diogelu pryfed peillio pwysig ein gwlad.

Mae gennym 15 o Wenynfeydd Sentinel yng Nghymru er mwyn gwella ein gallu i fynd i'r afael â phlâu sy'n cyrraedd o wledydd tramor. Caiff gwenynfeydd sentinel eu sefydlu mewn ardaloedd yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' lle mae gwenynwr gwirfoddol yn cytuno i fonitro ei nythfeydd rhag plâu egsotig yn benodol. Yn ogystal ag archwiliad gweledol, caiff malurion llawr o'r cychod gwenyn dynodedig eu samplu ddwywaith y flwyddyn a'u profi ar gyfer Chwilod Bach y Cwch Gwenyn a gwiddon Tropilaelaps. Rhoddir yr holl gyfarpar a gwaith papur i'r gwenynwr sy'n casglu samplau yn unol â chyfarwyddyd ac yn eu hanfon i labordy'r UWG er mwyn iddynt gael eu sgrinio. Caiff trapiau Chwilod Bach y Cwch Gwenyn a Chacwn Asia eu darparu a'u harchwilio gan y gwenynwr yn ystod archwiliadau arferol o nythfeydd a'u nodi ar daflen gofnodi. Diolch i'r gwenynwyr hynny sy'n gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd a chysylltwch â ni os hoffech gymryd rhan yn y dyfodol.

Yn ogystal, drwy gytundeb â'r gwenynwr, mae arolygwyr yr UWG yn monitro gwenynfeydd dethol dair gwaith y tymor yn agos at bob un o'r pedwar prif borthladd cludo llwythi yng Nghymru oherwydd y risg uwch yn y lleoedd hyn. Y porthladdoedd hynny yw Aberdaugleddau, Port Talbot, Caergybi a Chasnewydd, yn nhrefn y tunelli yr ymdrinnir â nhw.




Cacynen Ewrop yn yr Ardd Fotaneg



Cacynen Asia yn Jersey

Gwaith gwylio rhag Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn yr Eidal yn 2021

Mae gwybodaeth gan y Labordy Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Gwenwyna yn yr Eidal isod, a ddiweddarwyd ym mis Medi 2021, yn dangos gwaith gwylio rhag Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn Sisili. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw achosion positif eto eleni. Yn y cyfamser, yn rhanbarth Calabria ar y tir mawr, daethpwyd o hyd i ddwy wenynfa bositif a phum nythfa gnewyllol sentinel bositif. Yn ôl y wefan, daethpwyd o hyd i gyfanswm o 37 o chwilod llawndwf eleni.



Cacynen Goesfelen Asia (Vespa velutina nigrithorax)

Y tymor hwn, cynhaliwyd dau ymarfer yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol lle roeddem yn ffodus i ddod o hyd i gacwn Asia i ymarfer y dechneg olrhain a ddatblygwyd gan yr UWG, ac i brofi ap mapio newydd ar gyfer cacwn Asia ar ein iPad er mwyn dod o hyd i nythod cacwn Asia.


Yn hwyr yn y tymor yn Lloegr, aeth gwenynwr yn ardal Ascot yn Berkshire ati i ffilio pryfed byw yn agos at gwch gwenyn ddydd Mercher 6 Hydref. Tynnodd lun o *Vespa velutina* marw hefyd a chofnododd hynny ar ap am ddim, sef 'Asian Hornet Watch'. Cadarnhawyd mai cacynen Asia ydoedd ac, ar ôl ymgyrch olrhain yn yr ardal, daethpwyd o hyd i nyth mewn poplysen. Aethpwyd ati i'w dinistrio ddydd Llun 11 Hydref. Roedd yn mesur tua 35cm mewn diamedr – y nyth fwyaf a ganfuwyd hyd yma yn Lloegr. Parhawyd i fonitro'r ardal, gyda chefnogaeth Timau Cacwn Asia lleol. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys gosod trapiau a gwaith gwyllo, ac ymgwymerwyd â'r gwaith hwnnw'n ddyddiol am dair wythnos ar ôl i'r nyth gael ei dinistrio. Ar ôl peidio â gweld na dal dim byd am saith diwrnod, cafwyd gwared ar y trapiau a gofynnwyd i'r Timau Cacwn Asia lleol a'r gwenynwyr i fod ar eu gwylidwraeth.

Dair wythnos ar ôl y llwyddiant hwn, cafwyd adroddiad arall o Gacwn Asia yn bwydo ar neithdar ar blanhigion gardd yn ardal Buckland, Portsmouth. Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd drwy ap 'Asian Hornet Watch' fore Gwener 29 Hydref, yn cynnwys lluniau clir. Ymatebodd arolygwyr yr Uned Wenyn Genedlaethol yn gyflym a chyrraedd y safle erbyn 2pm y prynhawn hwnnw. Cafwyd hyd i nyth cacwn Asia mewn coeden Masarn Norwy

ddydd Sadwrn 30 Hydref yn fuan ar ôl hanner dydd ac fe'i dinistriwyd yn hwyr y prynhawn ddydd Sul 31 Hydref. Rwy'n falch iawn o'r ymateb cyflym a'r canlyniad cadarnhaol a sicrhawyd gan fy nghydweithwyr yn ne Lloegr. Cafodd y nyth ei hanfon i Fera Science Ltd maes o law i'w dadansoddi a pharhawyd â'r gwaith monitro yn yr ardal leol gyda chefnogaeth gwenynwyr lleol.



Canfod nyth cacwn Asia



Ap mapio ac olrhain

30 Hydref yn Portsmouth

Mae gan wefan Cymdeithas Gwenynwyr Cymru dudalen 'Dull Rhoi Gwybod am Weld Cacwn Asia yng Nghymru', sy'n cynnwys map rhyngweithiol sy'n rhoi manylion Cydlynwyr Timau Cacwn Asia cymdeithasau lleol a dilyswyr Timau Cacwn Asia sydd wedi cael hyfforddiant i adnabod cacwn Asia. Gweler <http://www.wbka.com/asian-hornet-reporting/>

Os oes gennych ffôn clyfar, sicrhewch eich bod yn lawrlwytho ap iPhone neu Android 'Asian Hornet Watch' ac yn ymgyswrtu â sut olwg sydd ar y cacwn a phryfed tebyg. Rwy'n gwybod ei bod hi ychydig yn hwyr erbyn hyn ar gyfer y tymor hwn, ond cadwch olwg allan am blanhigion sy'n blodeuo ar ddiwedd yr haf, fel iorwg, y mae'r cacwn (a phryfed eraill) yn bwydo ar y blodau. Rhwng wybod os ydych yn amau eich bod wedi eu gweld drwy ddefnyddio ap 'Asian Hornet Watch', drwy gwblhau ffurflen gofnodi ar-lein, drwy e-bostio alernonnative@ceq.ac.uk neu drwy gysylltu â'r UWG.

Mewnforion ac Allforion

Erbyn hyn, caiff y DU ei hystyried yn Drydedd Wlad gan yr UE ac, yn yr un modd, caiff holl aelod-wladwriaethau'r UE eu hystyried yn Drydedd Gwledydd gan y DU, felly mae rheolau Trydedd Wlad yn gymwys i fewnforion ac allforion.

MEWNFORIO Gwenyn Mêl

Rhaid i dystysgrif iechyd allforio (EHC) gael ei hanfon gydag unrhyw Wenyn Mêl a gaiff eu mewnfario o Drydedd Wlad. Rhaid i'r dystysgrif hon gael ei rhoi gan Awdurdod Cymwys y Drydedd Wlad neu ei Hardystiwr Swyddogol. Ar hyn o bryd, dim ond Breninesau (mewn cewyll gyda gwenyn gweithgar) y caniateir eu mewnfario o dan reolau Trydedd Wlad, ac eithrio o Seland Newydd lle y caniateir mewnfario pecynnau o wenyn hefyd.

Rhaid i fewnforwyr sy'n dymuno mewnfario gwenyn o drydedd wlad a restrir gydymffurfio â'r gofynion mewnfario. Rhaid i fewnforwyr roi gwybod am yr holl fewnforion ymlaen llaw drwy system IPAFFS (System Mewnfario Cynhyrchion, Anifeiliaid, Bwyd a Phorthiant). Rhaid i fewnforion o wledydd ar wahân i aelod-wladwriaethau'r UE ddod i mewn i'r wlad drwy Bwynt Rheoli Ffiniau. Hyd at fis Mawrth 2022, caiff mewnforion o aelod-wladwriaethau'r UE eu harchwilio yn y gyrchfan gan Arolygydd Gwenyn ar sail risg.

Mae Protocol Gogledd Iwerddon yn nodi'r egwyddor o fynediad dilyffethair i fusnesau Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Gall gwenynwyr o Ogledd Iwerddon barhau i allforio pecynnau a nythfeydd i'r DU. Ni fydd unrhyw archwiliadau ar y ffin ar gyfer llwythi a anfonir o Ogledd Iwerddon.

ALLFORIO Gwenyn Mêl

Rhaid i dystysgrif iechyd briodol gael ei hanfon gyda Gwenyn Mêl a gaiff eu hallforio i drydedd wlad. Caiff y dystysgrif hon ei rhoi gan yr UWG unwaith y caiff y gwenyn sydd i'w hallforio eu harchwilio ac y cadarnheir eu bod yn rhydd rhag plâu a chlefydau hysbysadwy difrifol.

Ar hyn o bryd, dim ond Breninesau (mewn cewyll gyda gwenyn gweithgar) y caniateir eu hallforio o dan reolau Trydedd Wlad i'r UE a Gogledd Iwerddon.

Gan fod Gogledd Iwerddon yn cael ei thrin fel pe bai'n rhan o'r UE o hyd, rhaid i dystysgrif iechyd gael ei hanfon wrth symud gwenyn i Ogledd Iwerddon a rhaid dilyn y weithdrefn allforio i Drydedd Wlad yn llawn. Yn yr un modd, dim ond breninesau y gellir eu hallforio i Ogledd Iwerddon. Ni chaniateir allforio nythfeydd na pheccynnau i Ogledd Iwerddon mwyach.

Er mwyn cael y canllawiau diweddaraf ar fewnfario ac allforio gwenyn mêl byw, ewch i'r ddolen ganlynol

[BeeBase – Adnodd gwybodaeth am gadw gwenyn i Wenynwyr \(nationalbeeunit.com\)](https://nationalbeeunit.com)

Hyfforddiant i wenynwyr

Y prif hyfforddiant a rown i wenynwyr yw'r hyfforddiant a roddir yn y wenynfa wrth i ni archwilio eich cychod gwenyn, ac rydym wrth ein bodd yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r rhai

sydd eu hangen. Rydym yn gobeithio y gallwn barhau â'n digwyddiadau iechyd gwenyn y flwyddyn nesaf ar ôl seibiant o ddwy flynedd oherwydd COVID, a byddwn yn aildechrau'r rhaglen dreigl gyda'r cymdeithasau sy'n cymryd rhan. Rydym wedi ein trwyddedu i ddangos crwybrau heintiedig, ac rydym yn ceisio cadw rhewgell lawn yn yr haf sy'n cynnwys yr enghreifftiau gorau posibl o'r holl anhwylderau sy'n effeithio ar yr epil, boed yn rhai cyffredin neu'n rhai hysbysadwy.

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth roi hyfforddiant i wenywyr, a bu modd i ni roi cyflwyniad ar adnabod clefydau fel rhan o raglen o weminarau ym mis Chwefror eleni. Hoffwn ddiolch i Maggie Gill a Paul Aslin am eu cyfraniadau i'r gwaith hwn.

Yn olaf

Mae hi wedi bod yn dymor llawer symlach eleni gan fod pob un ohonom yn gwybod y rheolau sylfaenol ar gyfer delio â phandemig COVID. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r Arolygwyr Gwenyn Tymhorol am eu hymdrechion glew yn y maes ac i chithau am ganiatáu i ni archwilio eich gwenyn. Fel y gwyddoch, caiff ein harchwiliadau eu targedu ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau tegwch, lle y caiff gwenyn pawb mewn ardal â blaenoriaeth uchel eu harchwilio. Mae'n gwneud ein hamserlenni gwaith yn llawer haws pan fyddwch yn ein helpu ni i wneud hyn. Rydym yn parhau i gadw clefydau hysbysadwy ar lefel isel a, hyd yn hyn, nid ydym wedi cael cadarnhad bod Cacwn Asia wedi cael eu gweld yng Nghymru.

Rydym yn ymdrechu i gadw ein cronfa ddata yn gyfredol, felly rydym wedi bod yn cysylltu â'r gwenynwyr hynny nad ydym wedi'u gweld ers cryn amser i ddiweddarau eu cofnodion. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai pawb yn gallu ymateb i'r cyfrif cychod gwenyn blynyddol, a ddechreuodd ar ddechrau mis Tachwedd, er mwyn sicrhau bod cofnodion da yn cael eu cadw.

Dyma fy mlwyddyn olaf fel Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol dros Gymru gan fy mod yn ymdeol yn 2022 ar ôl 20 mlynedd gyda'r UWG. Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda thîm ardderchog o arolygwyr yn fawr iawn. Mae'n ymddangos bod yr arolygwyr hynny yn mynd yn iau ac yn iau. Mae hefyd wedi bod yn bleser gweithio gyda hierarchaeth Cymdeithas Gwenynwyr Cymru mewn ffordd gyfeillgar ac adeiladol. Rydym yn ffodus ein bod yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru, sy'n barod i roi adnoddau i mewn i'r economi wledig er mwyn sicrhau ein bod nid yn unig yn cadw ein gwenyn yn iach ond hefyd yn ceisio gwella'r amgylchedd ar gyfer pryfed peillio yn gyffredinol.

Rwy'n trosglwyddo'r awenau i aelod ardderchog o'r tîm yng Nghymru, Maggie Gill BSc (Anrh) MSc, a fu'n llwyddiannus yng nghylch recriwtio Arolygwyr Gwenyn Rhanbarthol eleni. Mae Maggie wedi bod yn Arolygydd Gwenyn Tymhorol yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ers wyth mlynedd ac rwy'n siŵr y bydd hi'n dod â ffresni a bywiogrwydd i'r rôl.

Byddaf yn parhau i gadw gwenyn ac edrychaf ymlaen at weld llawer ohonoch mewn digwyddiadau yn y dyfodol.

Cofion gorau i chi gyd.

Frank Gellatly

Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol, Cymru

National Bee Unit | Uned Gwenyn Cenedlaethol

Animal and Plant Health Agency (APHA) | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Telephone/ Ffôn: 01267 202732 | Mobile/ Ffôn Symudol: 07775 119480 | Jabber 02082 257173 |

Email/ E-bost: francis.gellatly@apha.gov.uk

Website/ Gwefan: www.gov.uk/apha | Twitter/ Trydar: [@APHAgovuk](https://twitter.com/APHAgovuk) | Facebook/ Gweplyfr: [aphagov](https://www.facebook.com/aphagov)

National Bee Unit Website (BeeBase)/ Gwefan: www.nationalbeeunit.com



(h) Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk